

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg held at The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA and remote attendance on Dydd Mawrth, 17eg Ionawr, 2023 at 10.00 am

Councillors Present

County Councillor Alistair Neill, (Chairman)
County Councillor Peter Strong, (Vice Chairman)

County Councillors: Jill Bond, Ian Chandler,
Paul Pavia, Ann Webb, Laura Wright, Sue Riley

Also in attendance County Councillor
Paul Griffiths, Deputy Leader and Cabinet Member
for a Sustainable Economy

Officers in Attendance

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Cath Fallon, Pennaeth Economi a Menter
David Jones, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd
Jennifer Walton, Registration Service Manager
Steve Robinson, Head of Procurement
Huw Owen, Principal Environment Health Officer
(Public Health)
Gareth Walters, Trading Standards & Animal Health
Team Leader

APOLOGIES: County Councillor Tony Kear and Janice Watkins (NEU)

1. Datganiadau o Fuddiant.

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd.

Nid oedd unrhyw sylwadau wedi eu derbyn.

3. Adroddiad Perfformiad 2021-22 Diogelu'r Cyhoedd – Adolygu perfformiad y maes gwasanaeth.

Roedd y Cadeirydd wedi diolch i'r tîm am eu gwaith anhygoel yn ystod y pandemig, a hynny ar ran y Pwyllgor. Roedd David Jones wedi cyflwyno'r adroddiad ac ateb cwestiynau'r Aelodau gyda Huw Owen a Gareth Walters.

Her:

A oes modd esbonio 'TTP' (Track, Trace and Protect) yn yr adroddiad? Beth yw'r tebygolrwydd bod y nifer o achosion Covid yn cyrraedd penllanw ym mis Mawrth?

Oes - mae modd i ni gynnwys 'Track, Trace and Protect' yn yr adroddiad. Roedd gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu Sir Fynwy wedi ei ddi-ddymu haf diwethaf - mae hyn yn cael ei gydlynw'n rhanbarthol yng Nghaerffili. Mae'r gwasanaeth wedi ei gwtogi; maent yn delio gyda chartrefi gofal. Mae dal diddordeb gennym, yn enwedig o ran ymholiadau sydd gan ysgolion. Mae penllanw posib nawr i'w rheoli gan Gaerffili ar ran Gwent ond mae Dave Jones wedi ei gynnwys fel rhan o'r trefniadau llywodraethiant ac rydym yn cefnogi Caerffili drwy ein cydweithwyr lechyd Amgylcheddol.

A yw'r 2 aelod staff sydd ar secondiad yn dod 'nôl?

Rydym yn cefnogi secondiadau pan fydd y gwasanaeth yn elwa e.e. mae un o'n cydweithwyr trwyddedau yn gweithio i Lywodraeth Cymru, yn delio gyda Threth Polisi a Thrwyddedu a fydd yn elwa ni pan fydd yn dychwelyd.

A yw tipio anghyfreithlon wedi cynyddu gan fod safleoedd ar gau? Beth sydd wedi ei ddysgu hyd yma a'r tueddiadau sydd i'w gweld?

Yn 21-22, roedd cyfanswm nifer yr achosion wedi cynyddu, a hynny'n rhannol i'w briodoli i gofnodion mwy cywrain yn cael eu cadw ond mae yna gynnydd sylweddol wedi ei brofi, a hynny'n gyson gyda mwy o bobl yn gweithio gartref a'n gwneud gwaith adeiladu yn eu cartrefi yn ystod Covid. Rydym yn cymryd hyn o ddifri'. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi pwerau i awdurdodau lleol i roi hysbysiadau cosb penodedig ar gyfer y sawl na sydd yn cael gwared ar wastraff yn y ffordd gywir – byddwn yn parhau i wneud hyn drwy gydol y flwyddyn h.y. os yw aelwyd yn talu i rywun i gael gwared ar wastraff sydd wedyn yn cael ei dipio'n anghyfreithlon, heb gadarnhau fod y person wedi cofrestru i gynnig y gwasanaeth, byddwn yn erlyn yr aelwyd.

Pam fod y nifer o achosion o Reoli Plâu? Beth sydd wedi ei ddysgu yn sgil hyn?

Roedd yna ychydig o gynnydd. Mae'r gwasanaeth sydd wedi ei ddarparu gan lechyd Amgylcheddol ar Reoli Plâu yn un o orfodaeth. Roedd y gwasanaeth Rheoli Plâu disgresiynol a ddarparwyd gan y Cyngor wedi dod i ben yn 2013/14. Rydym yn cymryd camau gorfodi mewn achosion pan fydd rhywun yn rhoi gwybod i ni fod cymydog yn gwrthod clirio sbwriel o'r ardd, sydd wedyn yn denu llygod mawr – byddwn yn ymweld ac yn sicrhau bod mesurau yn cael eu cymryd er mwyn delio gyda'r llygod mawr. Un o'r rhesymau dros gadw'r ystadegau yw monitro'r effaith dros y blynyddoedd o'r penderfyniad i gael gwared ar y gwasanaeth Rheoli Plâu.

A oes modd i ni gael esboniad cryno o'r ymgynghoriad ar y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar gyfer Mesurau Rheoli Cŵn? Pa waith sydd wedi ei wneud gyda'r ymgynghoriad cyhoeddus?

Ar hyn o bryd, y rheol yw bod rhaid i berchnogion cŵn glirio unrhyw faw cŵn mewn ardaloedd *penodol* – mae yna bwysau wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf i ehangu'r mesurau yma.

Roedd yna ymgynghoriad cyhoeddus sylweddol rhwng Gorffennaf a Hydref 2020, gyda thua 1500 o ymatebion a oedd wedi llywio ein hadroddiad ar gyfer ei graffu ym Mawrth 2022 gydag argymhellion cryf, sef ymgysylltu gyda'r prif randdeiliaid i ystyried mesurau pellach. Ym mis Rhagfyr, roeddem wedi ysgrifennu at bob un Cyngor Tref a Chymuned a'r prif dirfeddianwyr, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, y prif gymdeithasau tai ayyb er mwyn gofyn iddynt ba fesurau y maent am weld yn eu hardaloedd. Rydym yn gobeithio y bydd yna fandad bod rhaid clirio baw cŵn ym mhob un ardal. Rydym yng nghanol y broses ac yn aros am adborth gan randdeiliaid, ac yn bwriadu adrodd nôl i'r Pwyllgor ym mis Mawrth ar faw cŵn a'n cynnwys argymhellion ar gyfer eithriadau a'r ardaloedd pan fydd rhaid i gŵn wisgo tennyn. Rydym angen creu Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus i'w ddiwygio/cymeradwyo gan y Pwyllgor, a fydd wedyn yn rhan o ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus.

Gwiriadau amgylcheddol a monitro: pa rai yw'r 4 prif dref, a yw hyn yn seiliedig ar boblogaeth? A oes modd monitro elfennau e.e. cronynnau?

Roedd ansawdd yr aer wedi gwella yn ystod 2021-22, fel yr oeddwn yn disgwyl, yn sgil bod llai o draffig ar yr heolydd yn y 4 prif dref yr ydym yn monitro, sef y Fennu, Trefynwy, Cas-gwent a Brynbuga. Mae dwy ardal rheoli ansawdd aer gyda ni, ym Mrynbuga a Chas-gwent. Nid yw

ansawdd yr aer wedi mynd y tu hwnt i'r lefelau amcan ar gyfer nitrogen deuocsid ym Mrynbuga am fwy na 5 mlynedd a 2 flynedd yng Nghas-gwent, Rydym yn monitro cronynnau - mae'r lefelau yma hefyd yn gostwng yng Nghas-gwent lle'r ydym yn monitro ond rhaid i ni gadw llygad ar hyn wrth i'r lefelau traffig gynyddu eto.

Pam nad yw Cil-y-coed yn cael ei fonitro, fel y drydedd dref fwyaf yn Sir Fynwy?

Rydym yn gwneud ychydig o waith monitro 'diffusion tube', a monitro mwy lleol yn y dref. Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn monitro lefelau nitrogen deuocsid ac wedi canfod eu bod dipyn yn is na'r lefelau amcan. Rydym yn dilyn canllaw Llywodraeth Cymru ar ble i fonitro, yn seiliedig ar y lefelau traffig.

Pam fod cynnydd wedi bod mewn cwynion a chyngor am safonau masnach?

Rydym yn dechrau gweld yr argyfwng costau byw nawr yn effeithio ar fywydau pobl- maent yn talu mwy o sylw i'r hyn y maent yn prynu, a'n ceisio sicrhau gwerth am arian ayyb ac rydym wedi bod yn delio mwy o ymholiadau. Ond nid oes rheswm penodol. Mae yna gynnydd sylweddol wedi bod ar draws Cymru yn sgil e-sigaréts.

Mae hwn yn adroddiad ardderchog. Un pryder yw'r ffaith ein bod ar ei hôl hi o ran cynnal arolygon? A oes modd i chi roi sicrwydd i ni neu ddangos sut ydych yn mynd i'r afael gyda hyn, yn enwedig ar gyfer arolygon hylendid bwyd ac iechyd anifeiliaid? A yw lladd-dai wedi eu cynnwys?

Mewn blwyddyn arferol, mae yna 500 o ymweliadau hylendid bwyd ond roedd hyn wedi gostwng yn sylweddol yn sgil yr ymateb i Covid. Yn 22/23, roddem yn disgwyl dychwelyd i'r lefelau hynny ac yn debygol o wneud hyn erbyn diwedd mis Mawrth. O ran Iechyd Anifeiliaid, mae ein gwaith dros y blynyddoedd diwethaf nawr yn fwy seiliedig ar ddeallusrwydd ac yn ymatebol. Mae'n beth positif ein bod wedi apwyntio 2 Swyddog yn ddiweddar. Hefyd, yn y flwyddyn arferol, roddem wedi dileu statws dros dro y 2 Swyddog Iechyd Anifeiliaid, ac felly mae 3 gennym erbyn hyn sydd yn golygu ein bod yn medru bod yn fwy rhagweithiol wrth fynd at i gynnal arolygon. Eleni, mae'r ymweliadau yn ffocysu ar fwyd yr anifeiliaid – mae'r arolygon Critical Control Point (e.e. marchnadoedd) yn cael eu cynnal. Nid oes yna ladd-dai yn y sir, ac eithrio un bach yn Rhaglan ond mae ein cylch gorchwyl ni yn dod i ben wrth y glwyd sydd yn arwain at y safle (mae'r safle tyrcwn ar Flaenau'r Cymoedd yn dod o gyfrifoldeb y Gwasanaeth Hylendid Cig, sydd yn gangen o'r Asiantaeth Safonau Bwyd.) Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, ar lefel rhyngwladol. Mae yna bryderon wedi bod am ladd-dai a lles y gweithwyr, ac felly, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn gweld sut y mae modd i ni wella hyn, gan ddechrau gyda'r safleoedd mwy fel gosod camerâu cylch cyfyng – bydd y mesurau wedyn yn cael eu cyflwyno i'r safleoedd llai.

Yn dilyn y cwest i lwydni yn Rochdale a'r canllawiau newydd sydd wedi eu cyflwyno yn sgil hyn, a oes yna oblygiadau ar gyfer tai gwael yn Sir Fynwy a'n ymateb ni?

Rôl y tîm Iechyd Amgylcheddol yw ymateb i gwynion sydd yn ymwneud gydag amodau tai, gan gynnwys tenantiaid y landlordiaid cymdeithasol. Y tri phrif berygl yw lleithder, oerni gormodol a diogelwch tân. Nid ydym wedi profi cynnydd sylweddol mewn cwynion lleithder a llwydni eleni. Pan ein bod yn derbyn cwyn, yn enwedig gyda landlordiaid cymdeithasol, rydym yn gweithio'n agos gyda hwy er mwyn cynnal y gwiriadau sydd eu hangen.

A ydych yn medru trafod y camau gorfodi sydd wedi eu cymryd ym maes tai er mwyn i ni ddeall ble ydym ar hyn o bryd? Beth am nifer yr oedolion a phlant sydd wedi eu crybwyll yn yr adroddiad?

Rydym yn gyfrifol am edrych at y sector rhentu preifat ac ymateb i gwynion. Yn yr achos cyntaf, rydym yn ceisio gweithio gyda landlordiaid am y gwaith sydd angen ei wneud ar ôl i ni gynnal arolwg o'r eiddo; yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r landlordiaid yn cydymffurfio o fewn yr amserlenni, heb fod angen i ni gymryd camau gorfodi. Mae'r mesurau a oedd ar gael i ni yn cynnwys cyflwyno hysbysiad gwella (dogfen gyfreithiol sydd yn nodi'r gwaith sydd angen ei wneud o fewn llinell amser), ac yn y pendraw, Gorchymyn Gwahardd. Nid ydym yn dymuno gwneud hyn ac mae ein gwaith o weithio gyda landlordiaid fel arfer yn llwyddiannus. Roeddem wedi penderfynu sawl blwyddyn yn ôl bod angen i ni gofnodi nifer yr oedolion a'r plant sydd yn yr eiddo.

O dan reoliadau Cymru a Lloegr sydd yn ymwneud gydag Effeithlonrwydd Ynni mewn Eiddo Sector Rhentu Preifat, mae Safonau Masnach yn chwarae rôl yn gosod isafswm o ran y safonau ar gyfer eiddo sydd i'w rhentu er mwyn sicrhau eu bod yn radd E neu'n uwch ar gyfer effeithlonrwydd ynni - rydym yn nodi'r holl eiddo sydd yn y sir ac sydd yn cydymffurfio. Efallai na fydd angen gwneud dim ar hyn o bryd ond efallai y byddant yn destun pryder yn y dyfodol. Dylai'r gwaith hwn gefnogi'r gwaith gorfodi tai. Rydym hefyd yn gweithio gyda Rhentu Doeth er mwyn gwella safonau'n gyffredinol, nid yn unig yn ymateb i gwynion.

Nid yw'n ymddangos fod unrhyw waith gyda phartneriaid yn cael ei wneud i liniaru materion gydag ansawdd aer yng Nghas-gwent? Sut y mae'r wybodaeth yn cael ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru?

Mae dwy ardal rheoli ansawdd aer: Brynbuga a Chas-gwent. Rydym yn cynnig adroddiad ar ansawdd yr aer i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Mae ansawdd aer yng Nghas-gwent wedi ei effeithio gan gefnffyrdd Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn mynychu'r grwpiau llywio ar ansawdd aer bob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru felly yn ymwybodol o'r problemau ac yn cyfrannu at y cyfarfodydd. Mae yna astudiaethau trafndiaeth hefyd sydd yn llywio'r camau nesaf ar gyfer gwella ansawdd yr aer a materion trafndiaeth yn ardal Cas-gwent, sydd yn cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru gydag Adran Briffyrdd Cyngor Sir Fynwy.

Yn sgil yr ôl-groniad sylweddol, gyda gwasanaethau yn ceisio mynd yn ôl i'r lefelau arferol yn dilyn y pandemig, a'r pwysau cyllidebol, a oes yna gais wedi bod am fwy o adnoddau?

Rydym yn ystyried y flwyddyn 21/22 yma ond yn 22/23, roedd yna fuddsoddiad o £223k, a oedd yn ddefnyddiol. Roeddem wedi cyflwyno'r adroddiad hwn fel tystiolaeth ar yr adeg yma llynedd ar gyfer cynyddu'r gyllideb ar gyfer 22/23; mae yna fandad cyllideb nawr ar gyfer ail-strwythuro, ac felly, mae yna arbedion i'w cael yn sgil hyn. Mae 2.4 person ychwnageol yn dipyn o beth ar gyfer tîm bach ac un swyddog a hanner ar gyfer trwyddedu a bydd yn rhoi hwb ar gyfer 22/23, sydd yn cael ei adlewyrchu yng nghapasiti a lles y timau.

A yw'n bosib i Aelodau i ymweld gyda Gorsaf Monitro Aer Hardwick Hill yng Nghas-gwent?

Mae modd i ni drefnu hyn ar gyfer unrhyw Aelod sydd am ymweld gyda'r orsaf. Efallai y bydd ein hadroddiad nesaf ar gyfer y Pwyllgor am ffocysu ar elfen benodol o ddiogelu'r cyhoedd: roedd ein hadroddiad 4-5 mlynedd yn ôl wedi ffocysu ar ansawdd aer, ac efallai bod modd i wneud hynny eto, os yw Aelodau yn dymuno.

A oes yna niferoedd gennym o ran y nifer o gamau gorfodi sydd wedi eu gwneud: lle y mae unigolion wedi cydymffurfio a'r rhai hynny sydd heb gydymffurfio?

Mae'r ffigurau gennym ond nid ydynt wrth law – bydd modd i ni ddarparu hyn.

Sut ydych yn trefnu pethau er mwyn sicrhau bod modd cynnal y gwasanaethau y tu hwnt i oriau swyddfa arferol ac a oes modd parhau i wneud hyn er y pwysau ar y gyllideb?

Mae modd cysylltu gyda Swyddogion y tu hwnt i oriau swyddfa arferol a bydd yr uwch-reolwyr yn cael eu hysbysu. Mae ein gwaith yn cael ei arwain gan ein partneriaeth gyda'r Heddlu, Gwasanaeth Tân ayyb, ac felly, mae yna arwyddion bod yna broblemau ar y gorwel – fel dawns anghyfreithlon – a bydd mwyn o Swyddogion wedyn ar gael.

Mae tud 10 o'r adroddiad yn datgan y bydd gwasanaethau o bosib yn cael trafferth ymgymryd gydag unrhyw ddyletswyddau statudol pellach - a ydym yn ymwybodol o unrhyw broblemau sydd ar y gorwel?

Cyfrifoldebau ychwanegol ar gyfer yr awdurdod: mae Deddf Iechyd Cyhoeddus Cymru 2017 yn cynnwys y Strategaeth Toiledau (sydd yn hawlio adnoddau Swyddogion), prisiau fesul uned a gweithdrefnau arbennig ar gyfer arlunwyr tatŵ. Bydd y costau yma yn cael eu had-dalu drwy'r gyfundrefn drwyddedu; byddant yn talu swm penodol am drwydded ar gyfer 3 mlynedd. Fel arfer, os oes yna faich pellach, byddwn yn ceisio sicrhau bod y costau yma yn cael eu had-dalu.

A yw'r cynnydd mewn clefydau hysbysadwy yn batrwm neu o fewn amrywiaeth arferol?

Ydyn – mae'r nifer o glefydau hysbysadwy wedi cynyddu. Mae pobl wedi colli ychydig o ffocws o ran diogelwch bwyd a'r mesurau a ddysgwyd gan Covid, a byddwn yn parhau i fonitro hyn yn agos.

Mae 4.4 yn cyfeirio at 15k+ o achosion Covid – ai dyma'r cyfanswm ar gyfer y cyfnod hwn neu a oedd rhai eraill?

Dyma'r nifer hysbysadwy a ddaeth drwy'r system CRM, gyda phobl yn rhoi gwybod i ni gan ddefnyddio eu ffonau eu bod wedi dal Covid. Roedd hyn wedyn yn arwain at y tîm Profi, Orlhain a Diogelu yn cysylltu gyda hwy. Mae'r rhif felly yn ymwneud gyda'r gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu ac nid dyma'r cyfanswm o reidrwydd.

Crynodeb y Cadeirydd:

Roedd yr Aelod Cabinet Paul Griffiths wedi nodi pa mor ddefnyddiol oedd y cyfarfod heddiw gan ddweud y bydd yn gwneud cymaint ag sydd yn bosib er mwyn esblygu adroddiadau blynyddol i mewn i brosesau dysgu ac i bractis y dyfodol.
Roedd y Pwyllgor wedi derbyn yr adroddiad.

Gwnaed cais bod adroddiad Diogelu Cyhoeddus 22/23 (Mai/Mehefin) gan gynnwys adolygiad o'r gwersi sydd wedi eu dysgu er mwyn medru paratoi ar gyfer achosion o Covid ac argyfyngau eraill ar gyfer y dyfodol, ynghyd â'r gwelliannau y mae rheolwyr a swyddogion am ddatblygu – **CAM GWEITHREDU**

Bydd angen i Swyddogion i ddanfôn gwybodaeth at Aelodau am y nifer o gamau gorfodi sydd wedi eu cymryd ar gyfer tai, er mwyn deall y niferoedd sydd dal angen gwaith - **CAM GWEITHREDU**

4. Adroddiad Blynyddol 21/22 Gwasanaethau Cofrestru – Adolygu perfformiad y maes gwasanaeth.

Roedd Jennifer Walton wedi cyflwyno'r adroddiad ac ateb cwestiynau'r Aelodau gyda David Jones.

Her:

Alistair: Roedd y gyfradd genedigaethau yn Sir Fynwy wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwn – a yw hyn yn eithriad neu'n rhan o duedd? A yw'n adlewyrchu'r hyn sydd yn digwydd yn fwy ehangach?

Nid oes yna ostyngiad dramatig wedi bod yn y gyfradd genedigaethau ond mae trigolion Sir Fynwy nawr yn mynd i Ysbyty Athrofaol y Faenor yn Nhorfaen.

Os yw'r gyfradd genedigaethau nawr wedi ei rhannu gydag Ysbyty Athrofaol y Faenor, sut ydym yn gwybod beth yw'r niferoedd a'r tueddiadau?

Mae'r gwasanaethau mamolaeth yn Neuadd Nevill wedi eu hisraddio ar ôl i Ysbyty Athrofaol y Faenor agor, ac felly, mae'n cael ei arwain gan fydwraig yn unig. Mae'r rhan fwyaf o enedigaethau yn Aneurin Bevan nawr yn digwydd yn Nhorfaen. Mae'r ffigyrau yma yn cael eu bwydo i mewn i'r Swyddfa Ystadau Gwladol, ac mae modd dod o hyd i niferoedd Sir Fynwy ar unrhyw adeg, ond rydym ond yn medru cael mynediad at y genedigaethau yn y sir. Hefyd yn dilyn Covid, roedd yna gyfnodau pan fu'n rhaid cau adrannau mamolaeth yn Neuadd Nevill yn sgil pwysau staff.

5.1, A oes yna wybodaeth ar y partneriaethau sydd wedi eu datblygu? I ba raddau y mae hyn wedi ei ystyried fel rhan o'r gyllideb?

Rydym yn bwriadu ehangu'r gwaith o weithio mewn partneriaeth i gynnwys cofrestru marwolaeth. Ar hyn o bryd, mae modd cofrestru genedigaeth mewn unrhyw swyddfa yn ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, sydd wedi bod yn boblogaidd iawn ac wedi ein helpu ni i reoli'r ôl-groniad wrth i ni ddod allan o Covid. Roedd cynifer o seremonïau dros yr haf y llynedd fel nad oedd modd i ni ddatblygu'r gwasanaeth ar gyfer cofrestru marwolaethau ond rydym yn bwriadu cynnal cyfarfodydd cyn hir ac mae yna drefniadau eisoes ar waith.

Sut mae trigolion yn medru cael mynediad at gofrestrïadau a chofnodion?

Mae unrhyw drigolyn yn medru gwneud cais am dystysgrif hanesyddol, ac mae modd iddynt gyflwyno unrhyw fanylion sydd ganddynt a byddwn yn chwilio am gofnodion. Mae'r cofnodion yn cael eu cadw mewn ystafell lle y mae'r tymheredd yn cael ei reoli, ac nid ydynt fel arfer yn caniatáu'r cyhoedd i edrych arnynt eu hunain ond mae rhywun yn medru gwneud cais a byddwn wedyn yn gwneud ein gorau i ddod o hyd i'r wybodaeth.

Mae adborth gan gwsmeriaid yn dda ond yn anecdotaidd - a fydd adborth digidol yn caniatáu gwybodaeth fwy ansoddol am farn trigolion am y gwasanaethau yma ac a ydym yn medru gwella rhai elfennau?

Mae'r adborth gan gwsmeriaid yn ffantastig, yn enwedig gan ein bod fel arfer yn delio gyda phobl sydd wedi profi profedigaeth er enghraifft. Ond mae modd i ni gasglu'r wybodaeth mewn ffordd well. Rydym yn gobeithio y bydd y gwasanaeth digidol yn gwneud gwahaniaeth a bydd hyn yn dechrau cyn hir.

A oes unrhyw ffordd o osod gwaelodlin neu'n defnyddio'r adborth ar gyfer meysydd eraill ac a oes unrhyw wersi i'w dysgu?

Mae'r Swyddfa Gofrestru yn cyhoeddi data perfformiad misol ar draws Lloegr a Chymru, fel bod modd i ni fesur ein hunain yn erbyn pawb arall, ac mae'r Swyddog Cydymffurfiaeth yn ymweld gyda ni yn gyson a bydd yn codi unrhyw bryderon sydd yn seiliedig ar y ffigyrau.

A yw Cofrestrau Priodas nawr yn cael eu defnyddio?

Mae yna drafodaeth wedi bod ers tro am geisio cynnwys mamau ar y cofnodion priodas yn ogystal â'r tadau; y datrysiad oedd cael gwared ar gofrestrau priodas yn gyfan gwbl. Cyn hyn, roedd Cofrestrydd wedi mynd â Chofrestr i'r briodas a bu'n rhaid i bobl lofnodi. Mae yna 'Atodlen' nawr, sef darn o bapur sydd yn cynnwys y wybodaeth, sydd wedi ei wirio a'i lofnodi gan bob un parti ond nid dyma'r ddogfen gyfreithiol - mae'r broses o gofrestru yn cael ei chwblhau ar ôl mynd yn ôl i'r swyddfa a mewngofnodi ar y system. Rydym yn storio'r cofrestrau cynt ond bydd pob dim yn cael ei gofnodi ar y gronfa ddata yn y dyfodol.

Mae'r tîm yn cynnwys 11 gweithiwr achlysurol a 7 arall?

Mae hyn yn gamgymeriad yn yr adroddiad: mae yna 6 yn y swyddfa a 11 gweithiwr achlysurol.

Yn sgil y system newydd, nid yw pobl yn derbyn tystysgrifau priodas mor gyflym ag yr hoffent – beth sy'n cael ei wneud er mwyn cyflymu hyn?

Rydym yn dysgu wrth i ni fynd yn ein blaenau a bydd yr adroddiad ar gyfer blwyddyn nesaf yn dangos fod y nifer wedi cynyddu'n sylweddol. Rydym yn ymwybodol o'r angen i ganiatáu mwy o amser ac adnoddau fel bod modd rhannu danfon tystysgrifau yn fwy cyflym. Rydym yn cael cyfarfodydd cyson gydag Arolygydd y cofrestryddion ar draws Cymru ac rydym wedi trafod a oes modd i ni greu rhywbeth ar gyfer y diwrnod - rydym yn medru ystyried hyn yn y dyfodol ond y cyngor yw peidio â gwneud dim byd am y tro, er mwyn osgoi creu penbleth. Y nod nawr yw gweithio ar ddanfon y tystysgrifau o fewn diwrnodau.

A oes modd i gynnig mewnbwn ar lefel genedlaethol i'r Prawf Dinasyddiaeth? Roedd rhai o'r cwestiynau yn hen ffasiwn ac amherthnasol; a oedd modd i ni gynnig adborth?

Mae Swyddogion yn medru gofyn a yw Cyngor Sir Fynwy yn medru cynnig mewnbwn i'r Prawf Dinasyddiaeth er mwyn sicrhau cwestiynau mwy synhwyrol – **CAM GWEITHREDU**

Crynodeb y Cadeirydd:

Mae'r Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad ac am ddiolch i'r Swyddogion a'r tîm. Mae'n dda i weld y meysydd sydd angen eu gwella – bydd hyn yn ein hannog i ystyried ffyrdd i wneud y gwelliannau.

5. Adolygiad Perfformiad Caffael – Adolygu'r trefniadau cydweithio a'r buddion a sicrhawyd hyd yma.

Roedd Steve Robinson wedi cyflwyno'r adroddiad ac wedi ateb cwestiynau'r Aelodau gyda Cath Fallon.

Her:

C7+8, o ran disgwyliadau ar gyfer y bobl a bod dealltwriaeth ymddygiadol wedi ei nodi fel bwloch - a yw'r camau yma yn mynd yn ddigon pell? A ydym angen mwy o 'sut' yn hytrach na 'beth'?

Mae diwylliant yn un o'r elfennau caniatáu. Ni fydd un peth yn cyflawni hyn. Mae'r strategaeth bwysig; yn ogystal â gosod y cyfeiriad, mae'n cyfathrebu'r blaenoriaethau ar gyfer yr awdurdod a sut ydym yn medru cyflawni'r amcanion. Y ffocws allweddol yw'r Cynllun Cymunedol a

Chorfforaethol Cyngor Sir Fynwy; byddwn yn cadarnhau ein bod yn alinio gyda hyn ar ôl i'r adroddiad fynd i'r Cabinet yfory. Roeddem wedi siarad gyda'r Tîm Cyfathrebu ynglŷn â sut i gyfathrebu'r negeseuon ehangach, os yw'r Cyngor yn cymeradwyo hyn ym Mawrth. Rydym yn cydnabod fod y ffordd yr ydym yn hysbysu a'n addysgu swyddogion yn medru bod yn well. Rydym yn datblygu rhaglen sydd wedi ei chefnogi gan ddeunydd ar-lein er medru cyfathrebu negeseuon cymhleth mor syml ag sydd yn bosib - mae'r Tîm Cyfathrebu yn cefnogi yn y broses honno fel ffrind cyfeillgar. Rhaid i ni ddefnyddio technoleg fel SharePoint yn well. Ar gyfer Prynu'n Gyfrifol, rydym yn profi hyn yng Nghaerdydd cyn bod unrhyw beth yn cael ei gyflwyno ar draws yr awdurdodau eraill.

Byddai mwy o wybodaeth am y bartneriaeth ag Atebion wedi bod yn dda. Byddai'n dda i wybod mwy am yr arbedion caffael a'n edrych ar werth cymdeithasol gwariant caffael - faint o'r gwariant caffael sydd yn aros yn Sir Fynwy? Heb fethodoleg yr arolwg, mae'r niferoedd yn ddibwrpas. Byddai'n dda gweld mwy o rifau a manylion. A ydym yn cadarnhau sut y byddai gweithio ag eraill yn helpu creu mwy o werth?

Rydym wedi bod yn ceisio adeiladu hyn o'r gwaelod i fyny - y ffocws yw sicrhau bod y seiliau cywir yn eu lle. Rydym wedi ceisio cadarnhau gwaelodlin ein sefyllfa gyfredol o ran y gwariant sydd yn cael ei gadw yn Sir Fynwy. Yn ein strategaeth, mae camau ymarferol i'w cymryd er mwyn gwella hynny, gan ystyried y newidiadau sydd eu hangen ar ein harferion gwaith, gweithio gyda phartneriaid ayyb. Mae wedi cymryd tipyn o waith i gyrraedd y sefyllfa yma, ble ydynt yn dechrau gweld y gwerth yn dod i'r amlwg. Mae amodau'r farchnad yn heriol wrth i ni geisio sicrhau arbedion; mewn llawer o achosion, efallai ein bod yn ceisio osgoi cost yn hytrach na'n lleihau costau. O ran gwerth, mae hyn yn agenda ehangach i ni.

Crynodeb y Cadeirydd:

Roedd y Pwyllgor wedi derbyn yr adroddiad. Ar gyfer yr adroddiad Caffael nesaf, gwnaed cais bod Swyddogion yn nodi mewn mwy o fanylder y buddion a ddaw i Gyngor Sir Fynwy o weithio ag eraill – **CAM GWEITHREDU**

6. Blaenraglen Gwaith a Rhestr Camau Gweithredu'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg.

Mae angen symud y cyfarfod ar 23in Chwefror i'r 27ain neu'r 28ain Chwefror – bydd Swyddogion yn cadarnhau hyn gydag Aelodau.

7. Cynllunydd Gwaith y Cabinet a'r Cyngor.

Noder y Cyfarfod Eithriadol o'r Cyngor sydd i'w gynnal ar 2ail Mawrth.

8. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion fel cofnod cywrain, a chynigiwyd hyn gan y Cynghorydd Neill a'i eilio gan y Cynghorydd Strong.

9. Cyfarfodydd Nesaf:

25ain Ionawr 2023 am 10.00am – Cyfarfod Arbennig (Cyllideb).

23ain Chwefror 2023 am 10.00am – Cyfarfod Arferol

The meeting ended at **12.05 pm**